

Image not found or type unknown

# Hyfforddiant ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a datblygu sgiliau ein gweithlu

Dysgwch fwy am y rhaglen strategol 'sgiliau cyfathrebu cydweithredol' sy'n helpu i ddatblygu sgiliau a newid systemau ar draws y sector.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Ionawr 2020

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/canlyniadau-personol/hyfforddiant-ymarfer-syn-canolbwyntio-ar-ganlyniadau-a-datblygu-sgiliau-ein-gweithlu> am y fersiwn diweddaraf.

Dysgwch fwy am y rhaglen strategol 'sgiliau cyfathrebu cydweithredol' sy'n helpu i ddatblygu sgiliau a newid systemau ar draws y sector.

## Rhaglen Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol

Mae gennym hyfforddiant ar gael i sefydliadau sydd eisiau buddsoddi mewn meithrin sgiliau a galluoedd eu gweithlu i gyflawni ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r hyfforddiant hefyd yn ystyried y goblygiadau a'r realiti i'r sefydliad ehangach wrth sefydlu'r ffordd hon o weithio fel dull gweithredu ar gyfer y system gyfan.

Mae'r hyfforddiant yn cynnwys:

- damcaniaethau am ymddygiad pobl sy'n llywio ymatebion effeithiol
- egwyddorion sy'n sylfaenol i'n hymatebion fel gweithwyr proffesiynol
- sgiliau a strategaethau y gall ymarferwyr eu defnyddio i ymgysylltu â phobl ar adegau o her a straen
- sut gall systemau sefydliadol ategu ymarfer effeithiol.

Mae pedwar cam i'r hyfforddiant:

- cynllunio ac ymgysylltu ag uwch reolwyr
- hyfforddiant tîm craidd â sesiynau dilynol
- hyfforddiant i fentoriaid â sesiynau dilynol (hyrwyddwyr ymarfer)
- sesiwn ddilynol ag uwch reolwyr a mentoriaid.

Mae rhagor o fanylion am y rhaglen i'w gweld yma:

[Mwy o wybodaeth am y Rhaglen Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol](#)

PDF 71KB

[Cysylltwch â ni](#) os hoffech drafod y Rhaglen Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol, a dysgu rhagor am sut mae'n cael ei chyflwyno a faint fyddai'n gostio.

## **Sut mae'r Rhaglen Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol yn helpu i sefydlu ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau?**

Fe wnaethom gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol ac fel y mae hon wedi helpu i sefydlu'r ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn awdurdodau lleol ar draws Cymru.

Fel rhan o'r gwerthusiad cynhaliwyd grwpiau ffocws a chyfweliadau ag ymarferwyr, rheolwyr ac uwch arweinyddion ar draws pum awdurdod lleol mewn gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant. Fe wnaeth y gwerthusiad hefyd adolygu cynlluniau gofal a chymorth.

Canfu'r gwerthusiad y canlynol:

### **Gweithredu**

Gweithredu ffordd o weithio effeithiol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, rhaid gweithredu ar draws y 'system gyfan' ac mae hynny'n golygu:

- cefnogaeth gadarn gan yr arweinwyr - yn strategol a gweithredol a hefyd ar draws y sefydliad dan arweiniad mentoriaid a hyrwyddwyr ymarfer

- cyplysu'r dull â gweledigaeth a set o werthoedd sy'n gydlynol, yn argyhoeddiadol ac yn gyfunol
- cysoni systemau, prosesau a strwythurau fel eu bod yn cefnogi yn hytrach nag yn sefyll yn ffordd y dull gweithredu
- sicrhau bod nifer ddigonol o staff wedi cael yr hyfforddiant ac yn ymroddedig
- gweithredu'n barhaus i feithrin a defnyddio'r sgiliau wrth ymarfer drwy sesiynau goruchwyllo a myfyrio fel tîm
- cydnabod rôl amser - mae newid yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth ac mae ar weithwyr angen amser i ddefnyddio'r sgiliau'n hyderus.

## **Effaith**

Cymerwyd camau breision ymlaen ers dechrau'r rhaglen ac mae'r effaith ar unigolion, teuluoedd ac ymarferwyr yn cynnwys:

- meithrin gwell perthnasoedd ag unigolion a theuluoedd drwy fod yn fwy agored a thryloyw wrth gyfathrebu
- datblygu canlyniadau personol ag unigolion drwy ddefnyddio sgiliau cyfathrebu effeithiol
- rhoi ystyriaeth i gryfderau ac adnoddau'r unigolyn neu'r teulu ym mhob sgwrs er mwyn cael mwy o gydbwysedd a gwneud penderfyniadau'n gydweithredol
- symud oddi wrth fodel sydd dan arweiniad y gwasanaeth at fodel lle rhoddir y ffocws ar yr hyn y mae'r unigolyn/teulu eisiau ac angen, ac sy'n cynnwys eu hatebion hwythau
- cytuno ar gynlluniau gweithredu cydweithredol ag unigolion a theuluoedd
- ymarferwyr yn cael mwy o foddhad o'u swydd gan deimlo eu bod yn cael effaith positif.

Fe wnaeth yr adroddiad gwerthuso gloi gan roi ychydig argymhellion er mwyn sefydlu'r dull gweithredu ymhellach:

- ymrwymo i ymarfer myfyriol rheolaidd, hyfforddiant sefydlu a gloywi a buddsoddi yn y rhain
- adeiladu ar y modelau, yr adnoddau a'r wybodaeth sy'n bodoli eisoes yn y sefydliad a chyplysu â'r rhain
- datblygu ymhellach sgiliau goruchwylio ac arwain sy'n seiliedig ar gryfderau
- cysoni systemau a phrosesau gan gynnwys panelau adnoddau a gwaith papur
- hyfforddi ar y cyd neu rannu negeseuon allweddol o'r hyfforddiant ag asiantaethau partner.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:

### [Adroddiad gwerthuso Rhaglen Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol](#)

PDF 567KB

Gwrandewch ar ddau ymarferwr yn trafod fel y maen nhw a'u staff wedi sefydlu canlyniadau personol a chynnal y dull newydd ers gwneud yr hyfforddiant Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol.

Gweld trawsgrifiad

00:00

Felly, yn Sir Fynwy mae gennym ni bellach 12 o fentoriaid a bydd gennym 5 arall

00:04

ar ôl y darn nesaf o waith. Yr hyn a wnaethom yw cymerwyd yr

00:09

hyfforddiant cyfarthrebu ar y cyd ac fe wnaethom ni ei dorri'n ddarnau

00:15

bach y darnau bach yr oeddem yn teimlo bod angen pobl ar y cyfle i ailystyried

00:19

ac yna ymarfer ac mae'n ymarfer, ymarfer, ymarfer.

00:23

Felly, rydym yn gweithio mewn parau, mae'r person rwy'n gweithio gyda nhw yn arweinydd gofal uniongyrchol,

00:32

mae therapydd galwedigaethol a ffisiotherapyddion yn cydweithio â gweithwyr cymdeithasol,

00:36

gwyddoch nad ydych chi i gyd yn weithwyr cymdeithasol beth bynnag ac yr ydym ni, pob pâr yn ceisio cyflwyno

00:41

sesiwn fentora dair gwaith y flwyddyn. Mae'r sesiynau oddeutu dwy awr o hyd,

00:47

fel arfer mae gennym rywle rhwng 8 a 15 o bobl sy'n dod i sesiwn fentor.

00:54

Maen nhw yn ddarnau bach o'r hyfforddiant fel y dywedais, a dyma'r

01:00

math o benawdau ymbarel yr ydym yn eu hysbysebu. Pwy sy'n elwa o ddod i'r sesiynau hyn?

01:06

Mae pob aelod o staff yn elwa am wahanol resymau,

01:10

rydym yn aml yn siarad yn nhermau ein gweithlu yn syrthio i mewn i draeanau,

01:17

roedd trydydd yn treulio diwrnod gyda Rhoda

01:24

a meddwl - o'm Duw mae hyn yn wych rwyf am fynd ymlaen ag ef.

01:29

Yna mae yna draean sy'n meddwl - o dyma ddillad newydd yr ymeradwr,

01:34

gwyddoch, byddwn, rydym wedi gwneud hyn o'r blaen, bydd yn fuan yn mynd i ffwrdd -

01:38

ac yna'r trydydd yn y canol sydd wedi bod angen llawer mwy o gefnogaeth. Felly, gall sesiynau mentora

01:45

i chi hunan-ddethol ond hefyd fel gorchwylwyr a rheolwyr tîm

01:50

ar gyfer pobl sy'n cael trafferth ac yn ei chael yn anoddach, gallwch eu cyfeirio at y

01:54

sesiynau hynny felly mae'n rhywle y gallwch awgrymu i bobl er mwyn parhau i

01:58

gael mwy o help. lawn fel y dywedasom ein bod yn gwneud llawer o hyfforddiant gyda phobl,

02:08

rydym wedi gwneud llawer o gyfathrebu ar y cyd ond mae yna

02:12

weithiau pan fyddwch chi'n meddwl - beth yw e am hyn mae pobl



02:15

yn ei chael yn anodd, pam nad ydynt yn deall neu a ydyn nhw'n ei ddeall

02:20

ond maen nhw'n ei chael hi'n anodd iawn ei ysgrifennu i lawr a'i gofnodi?

02:26

Felly er gwaethaf yr holl ymdrechion yr ydym wedi'u cyflwyno,

02:27

mae gennym system TG yn awr

02:29

Ile mae pobl yn gorfod rhoi canlyniadau personol i lawr ar ddiwedd pob asesiad

02:34

neu drwy'r broses asesu ac fe'u sgorir, felly gan y person ei hun,

02:41

felly cawsom rai o'r canlyniadau hynny, rhai, cymerwyd tua 700 o'r canlyniadau a darllenais

02:49

drwyddynt ac o safbwynt traeanau -

02:54

mae traean ohonyn nhw chi'n mynd mae 'na'n anhygoel,

02:57

traean chi'n mynd rydych chi bron yna ond mae angen rhywbeth arall, roedd traean ohonynt -

03:05

a ydych chi wedi bod yn gwrando? Ydych chi'n deall, ydych chi'n gwybod beth rydym yn ei wneud a pham?

03:11

Ac yna mae traean a thrydydd a thraean yn gwneud un,

03:15

ond roedd canran fach hefyd a oedd yn fethiannau cyflawn lle'r ydych chi'n meddwl -

03:18

o'm Duw ydych chi'n gymwys iawn? I'w cuddio gan y nyrsys - dyna oedd canlyniad personol

03:32

ar ffeil rhywun ac rydych chi'n meddwl, mewn gwirionedd? Felly rydyn ni wedi bod yn gwneud

03:38

y gweithgaredd hwn yr erthygl hon a aeth i lawr yn dda iawn,

03:42

felly yn y bôn, fe wnaethom rhoi llawer o ganlyniadau i bobl, ar dablau, ac roedd pobl mewn

03:47

timau yn edrych ar y canlyniadau ac roedd yn rhaid iddynt eu sgorio a'u graddio,

03:51

yw'n ganlyniad coch, coch yn ganlyniad gwael, neu a yw canlyniad oren

03:57

sy'n golygu eich bod bron yno, gallai fod yn dda,

04:02

neu a yw hynny'n ganlyniad gwyrdd sy'n wych. Nawr mae'r effaith a gafodd hyn ar ein staff wedi bod

04:07

mewn gwirionedd yn eithaf ysbrydoledig gan eu bod nhw i gyd wedi edrych

04:12

ar rai o'r canlyniadau hynny ac yn dweud o fy Nuw rydw i'n wir yn ysgrifennu pethau fel hynny

04:16

ac maent wedi meddwl yn wirioneddol sut y maent wedi bod mor hawdd ar adegau wedi llithro

04:23

rhag bod yn canolbwyntio ar y person yn ôl i fath o iaith wasanaeth

04:30

neu yn ôl i iaith broffesiynol, gallwch ddarllen rhai

04:34

o'r canlyniadau a'ch bod yn gwybod a ydych chi'n edrych ar ganlyniadau gweithiwr

04:37

cymdeithasol, therapydd ffisegol neu therapydd galwedigaethol gan yr iaith sydd wedi'i ysgrifennu.

English

## Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).